



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Peilot Sefydlu Meddyginiaethau a Meddygon Teulu (MAGPI)

Lleihau anghydraddoldebau
iechyd o ran parhad gofal i
bobl sydd mewn cysylltiad â'r
System Cyfiawnder Troseddol:
cydweithrediad rhwng y
Gwasanaethau Iechyd a Phrawf
yng Ngogledd Cymru

Mai 2025

Peilot Sefydlu Meddyginiaethau a Meddygon Teulu (MAGPI)

Cydweithrediad rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Phrawf yng Ngogledd Cymru

Mae'r peilot MAGPI yn gydweithrediad yng Ngogledd Cymru rhwng Adran Fferylliaeth Gofal Iechyd CEF Berwyn, y Tîm Iechyd a Chyfiawnder yn y Gwasanaeth Prawf, Safleoedd Cymeradwy (AP) a'u Practisiau Cyffredinol cysylltiedig. Nod y peilot yw cynnig trosglwyddiad di-dor o feddyginiaeth o'r ddalfa i'r gymuned a chofrestriad Meddyg Teulu cyn-rhyddhau i'r rhai sy'n gadael CEF Berwyn ac yn symud i un o'r ddau Safle Cymeradwy yng Ngogledd Cymru.

Mae pedwar Safle Cymeradwy yng Nghymru sy'n lletya tua 100 o breswylwyr gwrywaidd ar unrhyw un adeg. Mae gan lawer ohonynt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae Safleoedd Cymeradwy yn darparu dull allweddol ar gyfer trosglwyddo rheolaeth risg gyda'r nod o wneud y canlynol; lleihau'r tebygolrwydd o droseddu pellach, diogelu'r cyhoedd trwy roi cymorth adsefydlu effeithiol ochr yn ochr ag amgylchedd cefnogol a strwythuredig (HMIP, 2023). Hyd yr arhosiad yn y Safle Cymeradwy yw tua deuddeg wythnos cyn symud ymlaen i lety yn y gymuned. Felly, mae'r amser a dreulir yn y Safle Cymeradwy yn rhoi cyfle olaf i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol.

Mae CEF Berwyn yn garchar Categori C i ddynion yn Wrecsam, Gogledd Cymru. Agorwyd y carchar yn 2017 a dyma'r carchar mwyaf yn y DU. Fe'i cynlluniwyd i ddal dros 2,000 o garcharorion. Wedi'i ymrwymo i weledigaeth [y Papur Gwyn Carchardai a gyhoeddwyd yn 2021](#), mae'r carchar yn gweithredu drwy roi ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys iechyd a llesiant poblogaethau'r carchar sydd yn eu gofal, adsefydlu, addysg, a lleihau aildroseddu.

Drwy ganolbwyntio ar wella iechyd a lles, cynhaliodd y tîm iechyd a chyfiawnder mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), asesiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer preswylwyr a staff ym mhob un o'r pedwar Safle Cymeradwy yng Nghymru. Roedd canfyddiadau'r Asesiad Anghenion Iechyd (HNA) yn argymhell bod angen parhad gofal yn gyffredinol a bod angen cyflenwad digonol o feddyginiaeth i breswylwyr sy'n cyrraedd y Safle Cymeradwy yn benodol.

Pam cynnal peilot Sefydlu Meddyginiaethau a Meddygon Teulu (MAGPI)?

Dylai pawb yng Nghymru gael y cyfle i fod yn iach ac i'r perwyl hwnnw mae angen y blociau adeiladu cywir yn eu lle megis magwraeth dda, cartrefi o ansawdd da, gwaith teg, perthnasoedd diogel a chryf. Mewn gormod o ardaloedd yng Nghymru, nid yw'r blociau adeiladu hyn yn ddigon cryf neu maent ar goll yn gyfan gwbl. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn iechyd yn aml yn codi'n gynnar yn ein bywydau a gallant waethygu yn ystod ein hoes gan effeithio ar ein llesiant meddyliol a chorfforol, ymddygiad a mynediad at wasanaethau a all gynyddu anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, mae bron i hanner y carcharorion yn adrodd eu bod wedi profi pedwar [Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) (ACE). Mae cyfradd y marwolaethau ymhlith carcharorion [50% yn uwch](#) na gweddill y boblogaeth. Maent hefyd yn wynebu rhwystrau cynyddol i ddiwallu eu hanghenion iechyd trwy gael mynediad at wasanaethau. Mae parhad gofal rhwng amgylcheddau cymunedol ac amgylcheddau diogel yn allweddol i leihau'r risg i'r grŵp hwn sy'n un o'n poblogaethau mwyaf agored i niwed.


Cynhaliwyd yr Asesiad Anghenion Iechyd ledled Cymru ac fe dynnodd sylw at y ffaith bod cofrestriad carcharorion gyda meddygon teulu ar hyn o bryd yn digwydd ar ôl i'r carcharorion gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Oherwydd bod galw mawr ar wasanaethau cymunedol gan gynnwys gofal sylfaenol, gallai gymryd gryn amser i gael apwyntiad i sicrhau parhad gofal ac ailsefydlu cyflenwad o feddyginiaeth. Mewn rhai achosion gall hyn ddigwydd dyddiau neu wythnosau ar ôl cyrraedd y Safle Cymeradwy. Roedd y bwlch hwn yn y ddarpariaeth yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel gan y gallai arwain at ansefydlogi iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr ar adeg pan fydd eu hanghenion ar eu huchaf.

Beth wnaethon ni?

Fe wnaethom sefydlu'r broses ganlynol:

Unwaith y bydd staff y Safle Cymeradwy yn cael eu hysbysu am leoliad carcharor, byddant yn hysbysu fferyllfa'r carchar a Rheolwr Troseddwy'r yn y Carchar. Bydd rheolwr y troseddwy'r yn cael ffurflen gofrestru gyda Meddyg Teulu o'r tu mewn i'r carchar ac yn helpu'r carcharor i'w chwblhau. Bydd y ffurflen hon yn cael ei hanfon at dîm fferylliaeth y carchar. Bydd fferyllfa'r carchar wedyn yn cysylltu â'r practis meddyg teulu sy'n gysylltiedig â'r Safle Cymeradwy. Mae'r cyfathrebu hwn yn gymorth i gofrestru gyda Meddyg Teulu a pharhad presgripsiynau. Bydd y ffurflen gofrestru a'r crynodeb o'r feddyginiaeth yn cael eu hanfon i'r practis meddyg teulu, gan wella parhad y gofal. Mae'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses hon yn cynnwys Fferyllfa CEF Berwyn, Rheolwyr Troseddwy'r yn y Carchar, staff y Safleoedd Cymeradwy, y tîm iechyd a chyfiawnder a phractisiau meddygon teulu perthnasol.

Ffigur 1 - Crynodeb o fap proses MAGPI



Beth ydym ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

Isod mae dyfyniad gan un o drigolion Safle Cymeradwy yn rhannu ei brofiad:

"Rhedais allan ar ôl yr ail wythnos yma, felly roedd hynny'n gromlin ddysgu gan 'mod i erioed wedi dod oddi ar gyffuriau gwrth-iselder o'r blaen felly, roedd hynny'n anodd."

Ers i gynllun peilot MAGPI ddechrau ar 25 Hydref 2024, rydym wedi derbyn 30 o hysbysiadau. O'r rhain, arweiniodd 27 o achosion (90%) at barhad meddyginiaeth wrth drosglwyddo i Safle Cymeradwy, a chyflawnodd 22 achos (73%) barhad meddyginiaeth a chofrestriad meddyg teulu.

Rydym yn falch o dderbyn adborth cadarnhaol gan ein defnyddwyr gwasanaeth, sy'n nodi bod y prosiect wedi cyfrannu at leihau eu lefelau straen ynghylch parhad eu gofal.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhai enghreifftiau:

"Mae'n cymryd llawer o bwysau oddi arnoch chi, yn enwedig pan fyddwch chi'n cyrraedd yma (yn y Safle Cymeradwy), a bod gennych lai i'w wneud."

"Rwy'n meddwl bod (MAGPI) yn ardderchog gan na fydd pobl yn teimlo dan straen nac yn isel nac yn poeni."

"Os bydd y cyfan wedi'i wneud cyn i mi gyrraedd yma, dyna un peth yn llai i mi feddwl amdano."

Mae ein proses bresennol yn cael ei mireinio, ond mae ein canfyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'r peilot hwn wedi ailddatgan effeithiolrwydd cydweithio rhwng timau iechyd a chyfiawnder.

Yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn

Mae Parhad Gofal yn flaenoriaeth a rennir rhwng iechyd a chyfiawnder a phrofodd y peilot hwn y gall cydweithio fod yn drawsnewidiol o fewn cyfnod byr. Er mwyn i hyn ddigwydd mae gweithredu prydlon ac ymwybyddiaeth staff yn hanfodol ym meysydd iechyd a chyfiawnder.

Er bod y peilot hwn wedi'i gynllunio i liniaru'r heriau presennol o fewn ôl troed safleoedd cymeradwy, mae hefyd wedi agor cyfleoedd i edrych y tu hwnt i ganlyniadau uniongyrchol megis cydymffurfedd cymunedol parhaus, a chydymffurfedd â phresgripsiynau a chynnal hyn yn y gymuned.

Argymhelliad

Mae MAGPI yn cynnig proses swyddogaethol sy'n dangos sut y gall asiantaethau ac adrannau gydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Mae'n cynnig cyfle i brofi a gwerthuso darpariaeth ac effaith a threfniadau gweithio ar y cyd gyda'r nod o'u hehangu ledled Cymru i gyflawni ymateb di-dor ac integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau parhad gofal effeithiol.

Rydym yn argymhell y dylid ehangu'r cynllun peilot yn raddol i bob carchar ledled Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am y fenter hon, cysylltwch ag:

- Amber O'Brien, Arweinydd Fferylliaeth CEF Berwyn – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Amber.O'Brien@wales.nhs.uk
- Peter Salami, Cydlynnydd Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder - Gogledd Cymru, Peter.Salami@justice.gov.uk

Cydnabyddiaeth

Datblygir yr astudiaeth achos hon gan Is-adran Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru i dynnu sylw at lwyddiannau menter MAGPI ac i feithrin cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd. Estynnwn ein diolch diffuant i Peter Salami, Cydlynnydd Partneriaeth Iechyd a Chyfiawnder, Amber O'Brien, Arweinydd Fferylliaeth, BIPBC - CEF Berwyn a Matthew York, Cofrestrydd Iechyd y Cyhoedd, am eu mewnwelediad gwerthfawr a'u cefnogaeth wrth ddatblygu'r astudiaeth achos hon.